# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 36
MEDI 2011

Diau bod yr enwau Monty a Nora yn rhai digon cyfarwydd i drigolion ardal Aberystwyth a'r cyffiniau erbyn hyn. Ie, dyma enwau'r gweilch a fu'n nythu ac yn magu cywion yng ngwarchodle Cors Ddyfi, Ynyshir. Ers rhai misoedd bellach bu'r teulu bach pluog, du a gwyn yn ymgartrefu ar ben polyn telegraff nid nepell o'r rheilffordd gan ddenu sylw byd-eang iddynt eu hunain.

Pam felly yr holl gyffro am nyth o weilch? Wel am y tro cyntaf ers pedwar can mlynedd mae'r adar prin yma wedi magu cywion yn y rhan hon o Gymru. Y tro diwethaf i hyn ddigwydd oedd yn ystod teyrnasiad y Brenin Iago'r Cyntaf ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg pan gomisiynwyd cyfieithiad Saesneg newydd o'r Beibl. Bu cyffro mawr bryd hynny pan gyhoeddwyd y fersiwn newydd a phedwar can mlynedd yn ddiweddarach mae yna gyffro unwaith eto yng Nghymru am reswm gwahanol iawn. Y tro hwn, bu dyfodiad tri chyw bach yn gynnar ym mis Mehefin yn fodd i filoedd o bobl heidio i Ynyshir i gael cip ar rai o greaduriaid Duw nas gwelwyd yn yr ardal hon ers canrifoedd. Mae'r tri chyw sef Einion, Dulas a Leri (a enwyd ar ôl afonydd lleol), wedi mynd o nerth i nerth gan iddynt dderbyn pob gofal gan rieni hynod gydwybodol. Bu Nora a Monty yn sicrhau eu bod yn cael digon o bysgod i frecwast, cinio a swper! Gosodwyd camerâu yn y nyth ac fe fu hi'n bosib gweld y cywion yn tyfu ac yn datblygu drwy gyfrwng y we, neu drwy alw yn y warchodfa lle maent yn dangos darllediad byw o'r nyth bob dydd. Ymhen ychydig amser bydd yn rhaid ffarwelio â'r teulu bach wrth iddynt adael am yr Affrig ond fe fydd modd dilyn eu hynt a'u helynt gan fod tracyr lloeren wedi'i osod ar y cywion. Mawr obeithiwn y gwelwn y gweilch yn dychwelyd eto y flwyddyn nesaf i fagu rhagor o gywion a phwy ŵyr efallai y daw Einion, Dulas a Leri nôl i'w man geni hefyd maes o law.

Mae gan y digwyddiad hwn neges bwysig inni fel Cristnogion am ei fod yn ein hatgoffa o bwysigrwydd gobaith. Digon rhwydd yw anobeithio am y ffydd Gristnogol anghydffurfiol yn ein gwlad heddiw. Yn union fel y diflannodd y gweilch o ddyffryn Dyfi bedwar can mlynedd yn ôl y mae yna beryg y bydd Cristnogaeth hefyd yn diflannu o rannau o Gymru. Nid anodd yw dychmygu cyfnod pan fydd ardaloedd cyfan heb adeilad eglwys na chapel i dystiolaethu am gariad Duw yng Nghrist Iesu. Mae'n siwr y bu i rai naturiaethwyr anobeithio na fyddai'r gweilch byth yn dychwelyd i Gors Ddyfi ond er mawr syndod dyna a ddigwyddodd. Yn yr un modd y mae'n rhaid i ninnau hefyd ddal gafael ar y gobaith Cristnogol a pharhau i gredu y bydd y Ffydd unwaith eto yn ffynnu yn ein gwlad. Do, cawsom ein hatgoffa gan deulu o weilch yn 2011 i beidio ag anobeithio ond i ddal gafael yn y gobaith bywiol. Hyderwn felly y bydd y gweilch nid yn unig yn dychwelyd i'r ardal hon yn barhaol ond y bydd y ffydd Gristnogol hefyd yn ail-danio ac yn mynd ar gynnydd drwy Gymru gyfan. Bydded i'r Ysbryd Glân nythu o'r newydd yn ein plith a bydded i'r eglwys godi i fyny fry i'r uchelfannau yn ein gwlad.

*Tydi, a nythodd yn ein plith*
*Yn rhith colomen addfwyn,*
*O tyrd drachefn a dwg i'n gwlad*
*Sŵn atgyfodiad gwanwyn*

Gwynn ap Gwilym

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

**CALENDR MIS MEDI 2011**

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr y Mis: Sandra Beechey | Organydd y Mis : Ceris Gruffudd | |
| 4 Medi 2.30yp | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun:<br>Wendy ac Eirian Reynolds |
| 11 Medi 10.30yb | Oedfa Deuluol : Gweinidog | |
| 18 Medi 2.30yp | Oedfa Bregethu:<br>Y Parchg Peter M Thomas | Gofal y Te: Wendy ac Eirian Reynolds |
| 25 Medi 10.30yb | Y Croeso Mawr : Gweinidog | |
| 2 Hydref 2.30yp | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Gwenan a Richard Davies |

## I'CH DYDDIADUR

5 Medi: Cinio Bara Caws yn Festri Bethel o dan ofal Eglwysi'r Santes Fair a San Mihangel. 12.00-1.30yp.
5 Medi: Cyfarfod Diaconiaid am 7.00yh.
6-9 Medi: Cynhadledd y Senana, Llanbedr Pont Steffan
7 Medi: Fe fydd Bethel ar agor i ymwelwyr yn ystod y prynhawn ac fe fydd Te Cymreig ar gael yn y festri.
14 Medi: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys.
17 Medi: Ffair Medi yn Festri Bethel 10.00yb - 4.00yp.
21 Medi: Cymdeithas Bethel am 2.00yp.
21 Medi: Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Russell Jones 7.30yh.
27 Medi: Cwrdd Gweddi misol yn festri Horeb 7.30.
28 Medi: Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad y Chwiorydd ym Mhenuel, Bangor.
28 Medi: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys.
5 Hydref: Oedfa Ddiolchgarwch yng nghwmni'r Barchedig Nan Powell-Davies, Yr Wyddgrug am 7.00yh
9 Hydref: Oedfa Arbennig ym Methel am 2.30yp i ddiolch am y gwaith a gyflawnwyd ar y to. Bydd te yn dilyn yr oedfa.

**LLOFFION**

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r Parchedig Peter Thomas a'r teulu ar golli mam Peter yn ystod mis Gorffennaf.

Dymuiadau gorau i:
Bethan Davies
Mairwen Jones
Henry Thomas
sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Brysiwch wella!

Pen-blwydd Hapus i Mrs Menna Jenkins sy'n dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar y 3ydd o Fedi.

Barbeciw: Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y barbeciw a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf. Diolch yn arbennig i Sandra a Mansel am baratoi'r bwyd blasus ac i Sian am gael defnyddio'r stablau. Gwnaed elw o £200 i gartref Tregerddan.

Rhiannon Williams: Yn dilyn perfformiad Rhiannon yn Horeb ym mis Gorffennaf derbyniais y neges ganlynol ganddi cyn y gwyliau: 'Yn yr hydref gobeithiaf greu gyda chi, ddigwyddiad neu berfformiad i ddathlu'ch pethynas chi â'r capel. Gall hyn gymryd pa bynnag ffurf yr hoffech. Gall fod yn gyngerdd, yn ddrama neu'n berfformiad, neu'n rhywbeth llawer mwy syml fel rhannu straeon mewn bore coffi neu arddangosfa o luniau a chreiriau.' Daw cyfle maes o law inni drafod hyn ymhellach.